# Y cynnig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25

### Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gweithredu'r Tribiwnlys Addysg

## Cynnig Gwasanaeth Gyrfa Cymru

Mae gan bob unigolyn ifanc mewn lleoliadau a gynhelir hawl i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd gan Gyrfa Cymru a ddarperir wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy gyfrwng fideo neu'n ddigidol.

Darllenwch ein cynnig llawn - Dyfodol Disglair.

## Pobl ifanc gydag CDUau

Bydd ein cynghorwyr prif ffrwd yn gweithio gyda mwyafrif helaeth y bobl ifanc sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) mewn ysgolion prif ffrwd a lleoliadau darpariaeth amgen.

Mae gan Gyrfa Cymru hefyd dîm o gynghorwyr ADY sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau.

Mae pob un o'n cynghorwyr yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hopsiynau, gwneud penderfyniadau da am eu dyfodol, a gwybod sut i roi eu cynlluniau ar waith. Gall y gwaith hwn ddechrau yn gynharach na Blwyddyn 11 lle bo hynny'n briodol.

Mae pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i mewn i'r farchnad lafur yn cael eu cefnogi gan ein tîm Cymru'n Gweithio, sy'n gallu cynorthwyo gyda chwilio am swyddi, CVs a cheisiadau swyddi yn ogystal â darparu cyfarwyddyd parhaus a chyfeirio at asiantaethau eraill.

## Mynychu Adolygiadau Pontio

Gan fod pobl ifanc ym Mlwyddyn 14 yn cadw eu datganiadau, byddwn yn anelu at ddarparu cyfarwyddyd a chymorth ac yn ymdrin â'r adolygiadau yn unol â Chod Ymarfer AAA.

Ar gyfer pobl ifanc â CDUau, rhoddir blaenoriaeth i'r bobl ifanc hynny sy'n gadael yr ysgol i ymuno â'r farchnad lafur. Byddwn yn cytuno ar bresenoldeb mewn adolygiadau eraill o Flwyddyn 9 ymlaen mewn trafodaeth â CADYau.

## Sesiynau Grŵp

Pan fo'n briodol, byddwn yn cynnig sesiynau grŵp i wneud y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o opsiynau/cyfleoedd
- Helpu pobl ifanc i feddwl am yr hyn maen nhw eisiau ei wneud.

## Cynlluniau Dysgu a Sgiliau

Byddwn yn ysgrifennu cynlluniau dysgu a sgiliau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 14 sy'n gadael i fynd i addysg bellach, addysg uwch neu ddarpariaeth Twf Swyddi Cymru +.

## Ceisiadau am Gyllid

Ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 14 ac sydd angen lleoliad coleg arbenigol, bydd cynghorwyr gyrfa yn parhau i goladu ceisiadau am gyllid coleg arbenigol a'u cyflwyno.

Ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlynyddoedd 11 i 13 ac sy'n archwilio lleoliadau coleg arbenigol, byddwn yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth i'r unigolyn ifanc a'i deulu a, phan ofynnir am hynny, staff yr ALI/ysgol gan mai'r ALI fydd yn penderfynu a oes angen lleoliad arbenigol ai peidio.

# Offer for 2024-25 academic year



## Additional Learning Needs and Education Tribunal Act Implementation

### Careers Wales Service Offer

All young people in maintained settings are entitled to access careers information, advice and guidance from Careers Wales, delivered via face to face, telephone, video or digital means.

Read our full offer - Brighter Futures.

### Young people with IDPs

Our mainstream advisers will work with the vast majority of young people with Individual Development Plans (IDPs) in mainstream schools and alternative provision settings.

Careers Wales also has a team of ALN advisers who work predominantly in special schools and resource bases.

All of our advisers work with young people to help them understand their options, make good decisions about their future and know how to implement their plans. This work may begin earlier than year 11 where appropriate.

Young people who leave school and enter the labour market are supported by our Working Wales team who can assist with job search, CVs and applications as well as providing ongoing guidance and signposting to other agencies.

### Attending Transition Reviews

As young people in year 14 retain their statements we will aim to provide guidance support and attend the reviews in line with the SEN Code of Practice.

For young people with IDPs priority will be given to those young people leaving school to enter the labour market. We will agree attendance at other reviews from year 9 onwards in discussion with ALNCos.

### Group Sessions

Where appropriate we will offer group sessions to:

- Raise awareness of options/opportunities
- Help young people think about what they want to do.

### Learning and Skills Plans

We will write Learning and Skills Plans for pupils in year 14 who are leaving to enter further or higher education or Jobs Growth Wales + provision.

### Funding Applications

For young people who are leaving years 14 and require a specialist college placement Careers Advisers will continue to collate and submit applications for specialist college funding.

For year 11-13 school leavers exploring specialist college placements we will provide guidance and support to the young person, their families and, where requested, LA/school staff as the LA will be deciding if a specialist placement is required.